# Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu [Dirybudd]

## Cambian Healthcare Ltd
## Delfryn House a Delfryn Lodge

13–15 Ebrill 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN digidol 978-1-4734-4257-3


© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 4

2. Methodoleg ..... 6

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth ..... 8

4. Crynodeb ..... 9

5. Canfyddiadau ..... 11

Safonau Craidd ..... 11

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ..... 21

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl ..... 22

6. Y Camau Nesaf ..... 23

Atodiad A ..... 24

# 1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, byddwn yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Edrych i ba raddau mae sefydliadau gofal iechyd annibynnol yn cydymffurfio â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn gallu gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion

- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweliadau ag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)[1]
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

[1] Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae’r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

## 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd – ym maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu – â Delfryn House a Delfryn Lodge, yr Wyddgrug, ar noswaith 13 Ebrill a thrwy'r dydd ar 14 a 15 Ebrill 2015.

Mae Delfryn House a Delfryn Lodge yn ysbyty annibynnol, a chofrestrwyd Delfryn House yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2005 a Delfryn Lodge yn 2010. Ar adeg ein harolygiad, roedd Delfryn House a Lodge wedi'i gofrestru i roi gofal i 58 o gleifion ar ddwy ward ac mewn cyfleuster cam-i-lawr (Rhyd Alyn). Mae'r ysbyty'n darparu gwasanaeth adsefydlu i gleifion sydd ag anhwylder meddyliol ac a all fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Cambian Healthcare Cyf yw darparwr cofrestredig yr ysbyty.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom adolygu pob man, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, dau adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

## 4. Crynodeb

Trwy ein hymweliad â Delfryn House a Lodge, amlygwyd rhai materion siomedig, gan gynnwys rhai nad oeddent wedi gweld cynnydd ers ein hymweliad blaenorol ym mis Mai 2014. Y pryder mwyaf oedd bod y lefelau staffio'n parhau'n annigonol, yn benodol yn Delfryn Lodge. Gwnaethom nodi adegau pan oedd prinder sylweddol yn y niferoedd, a chadarnhawyd hyn gan staff pryderus a chleifion. Roedd yr effaith roedd y fath niferoedd yn ei chael ar weithgareddau cleifion a'u cyfnodau i ffwrdd yn annerbyniol, ac mae angen niferoedd digonol o staff ar frys er mwyn hyrwyddo iechyd a diogelwch yr holl gleifion a staff.

Er y niferoedd staffio, roedd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion a welsom yn ystod ein hymweliad yn gadarnhaol, a chafodd ymwneud y staff â'r broses arolygu ei nodi a'i werthfawrogi'n fawr. Nodwyd bod rhai aelodau staff wedi parhau ar ddyletswydd ac wedi dod i mewn yn ystod ein hymweliad nosweithiol. Er gwaethaf yr anawsterau dybryd gyda niferoedd y staff, roedd carfan y staff ar y cyfan wedi parhau'n ymroddedig iawn i garfan y cleifion.

Cafodd diogelwch staff a chleifion ei danseilio pan seiniodd aelod o staff larwm am gymorth ac yna fe'i diffoddwyd gan staff eraill ar ddyletswydd, ac ni wnaethant ymateb iddo. Mae angen edrych ar beryglon yr arfer hwn a'u cyfathrebu i'r staff i gyd.

Mae'r amgylchedd yr House a'r Lodge yn parhau i gael ei gynnal a'i gadw'n dda trwyddynt draw, ac yn lân, a chaiff unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol ei adrodd a'i ymdrin yn brydlon. Nodwyd bod y cyfleusterau oedd ar gael ar gyfer carfan y cleifion yn gynhwysfawr, er braidd yn brin o ddefnydd, yn enwedig y salon harddwch yn y Lodge. Roedd y gwasanaethau eiriolaeth rhagweithiol a chefnogol yn nodedig, ac roedd y bwyd yn cael ei ganmol ar y cyfan gan gleifion a staff o ran ei ansawdd, ei amrywiaeth a'i gyflwyniad.

Nodwyd problemau yn yr ystafell driniaeth/clinig yn Delfryn Lodge, yn enwedig gyda'r gofrestr cyffuriau a reolir a bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n anghywir, ynghyd â meddyginiaethau sydd allan o stoc. Nodwyd problemau gan archwiliadau mewnol, ac adroddwyd y problemau hyn fis ar ôl mis, gan ddangos bod ymateb difywyd i lywodraethiant mewnol.

Roedd llinellau gwag mewn cofnodion arsylwi, heb unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi, ac fel y nodwyd yn ein hymweliad ym mis Mai 2014, nid oedd y nyrs â gofal yn eu llofnodi ar y diwedd.

Roedd nifer o gleifion a dderbyniwyd yn ddiweddar i Delfryn Lodge wedi creu anawsterau o ran materion rheoli, a chafodd hyn effaith wael ar garfan y cleifion. Roedd cleifion a oedd yn rhy acíwt ar gyfer gwasanaeth adsefydlu

wedi peri straen i garfan y cleifion, yn sgil eu hymarweddiad a'r nifer o staff oedd ei hangen i reoli'r unigolion hyn yn effeithiol. Yn ogystal, roedd yr ysbyty wedi profi trosiant uchel o glinigwyr cyfrifol dros y pedwar mis diwethaf, gan beri i'r garfan o gleifion gwyno bod y ddarpariaeth feddygol yn anghyson.

Gwnaeth ein hadolygiad o ffeiliau staff ddangos y gwaith da parhaus a wneir, a'r ymrwymiad, i ddiweddaru gwybodaeth berthnasol ar gyflogaeth a oedd yn gyfredol. Yn ogystal, roeddem yn falch o glywed bod y sefydliad yn cynnal archwiliadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y gweithwyr, sy'n arfer a ystyrir yn un nodedig gennym.

Er i welliannau gael eu nodi o ran goruchwyliaeth staff ac arfarnu, roedd dal rhai aelodau staff nad oeddent wedi derbyn arfarniad neu oruchwyliaeth ers amser maith, ac mae angen diweddariad ar y rhain ar frys.

Roedd hyfforddiant wedi gwella hefyd ers ein hymweliad ym mis Mai 2014. Fodd bynnag, fel yn achos arfarniadau a goruchwyliaeth, roedd rhai bylchau mewn hyfforddiant gorfodol yn annerbyniol a rhaid cywiro'r rhain yn syth i sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y garfan o gleifion.

Mae angen cynnal adolygiad o'r Datganiad o Ddiben a chwynion. Roedd y Datganiad o Ddiben yn anghywir o ran niferoedd gwelyau a staff, ac nid oedd yn cwmpasu uned Rhyd Alyn. Nid oedd y cwynion a adolygwyd gennym yn cynnwys yr wybodaeth lawn i ddangos pa gamau a wnaed o ganlyniad i unrhyw waith archwilio. Felly roedd hi'n anodd cadarnhau'r canlyniad am nad oedd y rhain wedi'u cofnodi yn y llythyrau terfynol at y bobl a gwynodd.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

Amgylchedd y Ward

Uned ar gyfer dynion gyda 28 gwely ynddi yw Delfryn House, sydd wedi'i lleoli ar wahân i Delfryn Lodge. Adeilad dau lawr sy'n amgylchynu iard yw Delfryn House.

Mae gan Delfryn House ei dderbynfa ei hun lle mae staff ac ymwelwyr yn llofnodi eu hunain i mewn ac allan a lle rhoddir larymau personol a goriadau iddynt. Yn ardal y dderbynfa, mae ystafelloedd ar gyfer ymwelwyr/cyfarfodydd, ynghyd â swyddfeydd y staff. Mae drysau cloëdig bob ochr i'r fynedfa'n arwain i'r wardiau.

Ar y llawr daear, roedd yr ysbyty'n darparu amryw o fannau i'r cleifion a rhai ystafelloedd gwely i gleifion. Roedd lolfa'r cleifion yn fawr ac ynddi deledu, digon o seddi, a bwrdd pŵl a bwrdd pêl-droed. Roedd gan therapi galwedigaethol eu hystafell eu hunain lle cynhelir therapïau a gweithgareddau. Roedd ffotograffau a lluniau wedi'u harddangos ar y waliau, ac roedd amserlen weithgareddau wedi'i harddangos hefyd.

Ar y llawr daear, roedd swyddfa'r nyrs, clinig ac ystafell archwilio, a hefyd ystafell fwyta a chegin i'r cleifion. Gallai'r cleifion gael mynediad at y gegin i baratoi diodydd ar unrhyw adeg, cyhyd â bod staff yn agor y cyfleuster ac yn aros i oruchwylio a chloi'r gegin pan oedd pawb wedi gorffen. Roedd yr ystafell fwyta'n cynnwys byrddau a chadeiriau, ac roedd ffrwythau ar gael i gleifion eu bwyta.

Roedd gan gleifion fynediad at yr iard y tu allan lle'r oedd seddi, gwelyau blodau a chyfleusterau ysmygu.

I fyny grisiau, roedd ystafelloedd gwely i gleifion, lolfa arall, campfa, ystafell TG ac ynddi dri chyfrifiadur, ystafell bwrdd i staff, a chegin i gleifion.

Roedd y drws sy'n rhoi mynediad i'r llawr cyntaf wedi cael ei ddifrodi a gwydr wedi torri. Ar adeg ein hymweliad, roedd y drws wedi'i orchuddio â phren ac roedd yr ysbyty'n disgwyl iddo gael ei drwsio.

Roedd Delfryn House yn lân ac roedd ei gyfleusterau mewn cyflwr da.

Adeilad modern, mawr yw Delfryn Lodge. Rhoddir llety ar y ddau lawr, ac mae mwyafrif yr ystafelloedd gwely ar y llawr cyntaf. Mae yna lifft sy'n rhoi mynediad i'r llawr cyntaf, ond prin y caiff ei ddefnyddio. Ar adeg ein hymweliad, roedd 21 o gleifion ar y ward, ac iddi 24 o welyau. Roedd gan yr

holl ystafelloedd gwely system galw nyrsys, cyfleusterau en-suite â chawod, a digon o le i gadw trugareddau personol. Roedd baddon ar gael i'r cleifion hynny oedd ei angen.

Wrth fynd i mewn i'r ward, mae cyntedd mawr a rhywfaint o seddi blith draphlith a ffôn talu mewn ystafell gaeedig, nad oedd yn gweithio ar adeg ein hymweliad. Roedd dwy lolfa – un ar bob llawr – a digonedd o seddi a setiau teledu mawr. Roedd y ddwy lolfa wedi'u dodrefnu'n dda, ond roedd disgwyl y byddai seddi'r lolfa fyny grisiau yn cael eu newid o ganlyniad i ddifrod.

Roedd modd cael mynediad i'r ardd ddeniadol o'r lolfa ar y llawr daear, ac roedd cysgodfa smygu fawr ynddi. Roedd yr ardd ar agor am amser cyfyngedig yn unig am fod uchder y ffens yn annigonol. Mae'n ofynnol codi'r ffens o gwmpas yr ardd er mwyn i gleifion gael mynediad agored iddi.

Roedd gan yr ystafell fwyta seddi ar gyfer 24 o bobl o amgylch saith bwrdd. Roedd cegin therapi'n arwain o'r ystafell fwyta lle'r oedd gan gleifion ofod yn y cypyrddau i gadw bwydydd. Roedd dau bopty ac oergelloedd/rhewgelloedd ar gael. Cedwid eitemau'r cleifion yn yr oergelloedd, wedi eu labelu, ac roedd y cyfleusterau'n lân.

Ar y llawr cyntaf, roedd ystafell synhwyraidd ac ystafell therapi fawr ac ynddi fwrdd tennis a bwrdd pŵl, cyfarpar ymarfer corff, gemau, a deunyddiau celf a chrefft.

Roedd amgylchedd y Lodge yn lân iawn. Roedd hysbysfyrddau wedi'u gosod ar y ward oedd yn cynnwys gwybodaeth am eiriolwyr, amserlen therapi, grŵp byw'n iach, manylion cyfreithwyr, sut i wneud cwyn, a bwrdd swyddi therapi.

***Gofynion***

***Mae angen trwsio'r ffôn talu yn Delfryn Lodge fel y gall cleifion ei ddefnyddio.***

***Mae angen codi'r ffens sy'n amgylchynu'r ardd er mwyn rhwystro'r cleifion rhag ffoi.***

***Mae angen newid y dodrefn yn y lolfa fyny grisiau yn y Lodge oherwydd difrod.***

## Diogelwch

Nodwyd bod gan yr holl staff sydd ar ddyletswydd yn yr House a'r Lodge larymau diogelwch er mwyn seinio rhybudd i'r lleill petai argyfwng. Rhoddwyd larymau hefyd i staff AGIC er mwyn sicrhau ein bod yn ddiogel yn ystod ein hymweliad. Dywedodd staff a chleifion wrthym am adeg pan seiniodd aelod o staff larwm a anwybyddwyd. Bu'n rhaid i glaf gynorthwyo'r aelod o staff a

galw am gymorth. Mae'n hollbwysig nad yw larymau'n cael eu hanwybyddu neu eu troi i ffwrdd, a rhaid i'r ysbyty ategu'r peryglon o beidio ymateb i alwadau larwm.

Gwnaeth y mwyafrif o staff a chleifion y gwnaethom siarad â nhw grybwyll lefelau staffio annigonol fel pryder mawr. Nodwyd yn ein hymweliad diwethaf ym mis Mai 2014 bod niferoedd annigonol o staff, ac nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Roedd y broblem yn waeth ar gyfer y Lodge, ond dywedodd staff yr House y byddai eu lefelau staffio nhw'n dioddef petai staff yn mynd oddi yno i'r Lodge i gefnogi'r staff yno.

Soniodd cleifion wrthym am effaith lefelau staffio isel ar eu lles a'u cynnydd, gan ddatgan bod y sefyllfa staffio wedi bod yn faen tramgwydd rhag iddynt gael amser un i un gyda'u nyrs enwebedig, ac o ganlyniad bod rhai cleifion wedi cysylltu â'r Samariaid. O ganlyniad, roedd rhai cleifion yn teimlo eu bod wedi'u gwrthod ac yn anniogel o ganlyniad i'r lefelau staffio.

Gwnaeth adolygiad o rotâu staff a dogfennau eraill nodi diffygion mawr o ran lefelau staffio. Nodwyd dwy adeg ym mis Mawrth 2015 pan oedd sifftiau'n brin o dri a dau aelod o staff, yn y drefn honno. Yn ogystal, nodwyd bod staff yn gweithio rhan o sifft, yn mynd adref ac yna'n dychwelyd i gyflenwi sifft nos. Mae'r mater parhaus o lefelau staffio gwael yn un difrifol ac yn cael effaith fawr ar ddiogelwch y staff a chleifion. Rhaid adolygu lefelau staffio ar unwaith a rhaid gwella niferoedd fel mater o frys. Yn dilyn ein hymweliad, gwnaethom anfon llythyr pryder ar unwaith at Cambian Healthcare ynglŷn â'n pryderon am lefelau staffio. Mae Cambian Healthcare wedi ymateb i'r llythyr ac wedi cyflwyno cynllun gweithredu i AGIC a fydd yn cael ei fonitro gennym.

O fewn y misoedd diwethaf, roedd cleifion newydd, amhriodol wedi eu derbyn i'r Lodge ac wedi creu anawsterau i'r staff o ran materion rheoli. Derbyniwyd cleifion ac iddynt anghenion cymhleth, a rhwng bod prinder staff hefyd, nid oedd anghenion cleifion yn cael eu bodloni. Tynnwyd sylw at y pryderon hyn gan staff, ac mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod cleifion newydd yn briodol ar gyfer yr ysbyty. (Gweler y paragraff olaf o dan adran Gofal Iechyd Cyffredinol.)

***Gofynion***

***Mae'n hollbwysig bod pob galwad larwm yn cael ei ystyried o ddifri ac yn cael ei ateb er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a staff.***

***Mae lefelau staffio'n gofyn am gamau gweithredu brys. Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod digon o staff ar bob ward er mwyn rhoi gofal priodol i'r garfan o gleifion.***

**Y tîm amlddisgyblaethol**

Gwnaeth yr holl staff y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â dull y tîm amlddisgyblaethol o weithio. Dywedodd y staff fod cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn digwydd yn rheolaidd, a chaiff pob disgyblaeth ei chynrychioli gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, meddygon a nyrsys. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn rhai cydweithredol lle y lleisir barn a safbwyntiau gan y disgyblaethau i gyd a lle mae'r staff yn teimlo bod parch i'w gilydd.

Mynegwyd pryderon ynghylch y newidiadau cyson o ran staff meddygol. Dywedodd un claf wrthym ei fod wedi gweld tri chlinigydd cyfrifol yn y pedwar mis diwethaf a bod y trosiant uchel wedi aflonyddu ar y cleifion. Ar adeg ein hymweliad, roedd clinigydd cyfrifol locwm yn y swydd yn y Lodge, ac fe'n hysbyswyd bod proses recriwtio'n mynd rhagddi i lenwi'r swydd hon yn barhaol. Roedd staff o'r farn y byddai meddyg iau yn fuddiol er mwyn cynorthwyo'r ymgynghorwyr a'u cleifion, yn enwedig wrth lenwi'r holl waith papur sy'n ofynnol.

Cynhelir cyfarfodydd pontio yn yr House a'r Lodge, lle caiff nodiadau trosglwyddo o'r sifft flaenorol eu mynegi i'r sifft nesaf. Yn ogystal, dywedodd staff wrthym fod cyfarfodydd staff yn digwydd pob mis a bod clinigydd cyfrifol yr House yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda staff ynghylch cleifion a'u gofal.

***Cam gofynnol***

***Mae gofyn adolygu'r modd o gyflenwi swydd y clinigydd cyfrifol er mwyn sicrhau bod cysondeb i gleifion.***

**Preifatrwydd ac urddas**

Roedd gan yr holl gleifion eu hystafell wely en-suite eu hunain, ac roeddent yn gallu cadw eu trugareddau eu hunain a gosod lluniau i bersonoli'r lle. Roedd rhai cleifion wedi cael asesiad risg ac yn meddu ar oriadau i'w hystafelloedd eu hunain, ond gallai'r holl gleifion gloi eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd cleifion fod rhai staff yn cnocio'r drws cyn mynd i mewn i ystafell wely. Mae'n bwysig bod y staff i gyd yn parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion ac yn cnocio cyn mynd i mewn i ystafell wely claf.

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt nyrs enwebedig y gallant gwrdd ag ef/hi yn breifat a siarad am unrhyw fater. Ond dywedodd cleifion wrthym nad oeddent yn teimlo'n ddiogel am fod y niferoedd staffio wedi bod yn annigonol. Roedd rhai cleifion wedi bod yn teimlo'n anhwylus ac roeddent o'r farn na roddid llawer o amser iddynt.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn gallu gwneud galwadau ffôn yn breifat drwy eu ffonau symudol eu hunain neu'r ffôn talu. Nid oedd ffôn talu'r Lodge yn gweithio ar adeg ein hymweliad (gweler adran Amgylchedd y Ward). Gall y cleifion hefyd ddefnyddio'r ystafell ymwelwyr i gwrdd â theulu a chyfeillion yn breifat.

**Therapïau a gweithgareddau i gleifion**

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am y therapïau a'r gweithgareddau a gynigir gan yr ysbyty. Roedd hysbysfwrdd yn arddangos swyddi â thâl i gleifion; roedd ystafelloedd penodedig yn cynnig gweithgareddau i gleifion megis campfa a salon gwallt a harddwch (a oedd ond ar agor unwaith yr wythnos); roedd ystafelloedd therapi galwedigaethol gyda deunyddiau celf a chrefft; ac roedd cegin, ystafell gyfrifiaduron ac ystafell therapi ar gyfer ymlacio.

Ar adeg ein hymweliad, roedd yr uned therapi galwedigaethol yn y broses o ddarparu ei gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos. Roedd menter gan y cwmni o'r enw Project 25 hefyd yn mynd rhagddi, gyda'r nod o ddiogelu 25 awr o weithgareddau i bob claf pob wythnos. Dywedwyd wrthym fod staff wedi cael eu hyfforddi yn y maes hwn a bod 70% o gleifion bellach yn gwneud y nifer ofynnol o weithgareddau.

Cadarnhaodd yr uned therapi galwedigaethol wrthym eu bod yn cyfweld â phob claf newydd wrth iddo gyrraedd Delfryn, a'u bod yn cwblhau rhestr wirio diddordebau. Wedyn, rhoddir amserlen/rhaglen bersonol i bob claf, ac roedd amserlen grŵp safonol wedi'i harddangos ar bob ward a byddai hon yn cael ei hadolygu a'i newid bob tri i bedwar mis.

Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod tîm cymunedol a oedd yn digwydd yn Delfryn House. Gallai'r holl staff a chleifion a oedd yn rhydd fynd i'r cyfarfod a chyfrannu ato. Cadeiriwyd y cyfarfod gan aelod o'r staff therapi galwedigaethol, ac roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r hyn yr hoffai'r cleifion ei wneud dros y penwythnos. Yn ogystal â thrafodaethau o gwmpas gweithgareddau'r penwythnos, rhoddwyd gwobr i un o'r cleifion am ei ymdrechion parhaus wrth ei swyddi cymunedol. Gwnaed cyhoeddiad am fis ffitrwydd a gwahoddwyd y cleifion i gymryd rhan. Byddai hyfforddwr personol ar gael hefyd am ddwy neu dair sesiwn yr wythnos i gynorthwyo cleifion gyda'u targedau.

Rhoddai'r uned seicoleg sesiynau therapiwtig wythnosol wedi'u personoli, ymwybyddiaeth fyfyriol, a chwnsela, ac roeddent yn gweithio'n agos â therapi galwedigaethol i ddarparu rhaglen grŵp i drin gorbryder. Roedd tîm iechyd a lles yn darparu rhaglenni a gwiriadau rheolaidd i gleifion ar reoli pwysau, profion gwaed, profion ECG, a rhoi'r gorau i smygu. Roedd cleifion oedd

angen gweld meddyg teulu, deintydd, optegydd neu wasanaeth arall yn cael eu cynorthwyo a'u cludo i apwyntiadau.

Soniodd staff fod adegau pan na fodlonwyd cynlluniau gofal cleifion oherwydd diffyg staff, a dywedodd staff Delfryn House y gall cleifion fynd allan yn fwy i'r gymuned pan fydd lefelau staffio'n foddhaol.

Wrth drafod â'r cleifion, tynnwyd sylw pellach at y broblem bod lefelau staffio annigonol wedi arwain at ganslo neu gyfyngu ar weithgareddau. Serch hynny, roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi mwynhau'r gweithgareddau a gynigiwyd i garfan y cleifion.

**Gofal iechyd cyffredinol**

Adolygwyd y clinig/ystafell driniaeth yn Delfryn Lodge gennym, a gwnaethom nodi nifer o faterion. Roedd nifer o gamgymeriadau yn y gofrestr o gyffuriau a reolir, gan gynnwys cyfansymiau anghywir a diffyg llofnodion gan dystion. Roedd gan un cofnod ddyddiad heb fanylion eraill, ac roedd rhai llinellau gwag yn y gofrestr o gyffuriau a reolir ac ymddengys fod cofnodion wedi'u gwneud ar ôl y dyddiad.

Defnyddiai'r ysbyty fferyllfa allanol i gynnal archwiliad o'r clinigau, ac o ganlyniad fe'u darperir ag adroddiad o'r canfyddiadau a wnaed. Gwnaethom nodi nad oedd rhai meysydd a nodwyd gan yr archwiliadau allanol wedi cael eu cwblhau, yn benodol yr adroddiad dyddiedig 1 Ebrill 2015. Roedd rhai o'r un hen faterion yn trosglwyddo o fis i fis yn nifer o'r archwiliadau mewnol, misol ar feddyginiaethau. Mae'r meysydd y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiadau yn gofyn am gamau gweithredu ar unwaith.

Gwnaethom nodi canfyddiadau penodol y cleifion ynghylch eu meddyginiaethau, ac fe'u bwydwyd nôl i staff yr ysbyty. Gwnaethom nodi tri chlaf yr oedd eu meddyginiaethau wedi bod allan o gyflenwad/ddim ar gael am bythefnos. Gwnaethom nodi bylchau mewn cofnodion gweinyddu lle'r oedd hi'n anodd gweld a oedd cleifion wedi cael eu meddyginiaeth ai peidio. Yn ogystal, rhoddwyd meddyginiaeth pro rata i glaf o gyflenwad yr ysbyty, er bod cofnodion y claf yn dangos ei bod wedi'i rhagnodi.

Nid oedd dyddiadau agor ar rai meddyginiaethau hylif, ac roedd gan un claf alergedd i feddyginiaeth benodol, ond nid oedd sôn beth oedd yr alergedd.

Wrth inni adolygu cofnodion arsylwi 1:1 y cleifion, tynnwyd sylw at nifer o linellau gwag a oedd heb wybodaeth arnynt. Yn ogystal, nid oedd y cofnodion wedi'u llofnodi gan y nyrs â gofal ar y sifft diwrnod a'r sifft nos.

Roedd y siartiau cydbwysedd hylif ar gyfer un claf yn cyfleu nad oedd digon o hylif yn cael ei ddarparu. Mae'n hanfodol bod cofnodion a siartiau'n cael eu cwblhau'n gywir i sicrhau bod y claf yn derbyn y gofal gofynnol.

Mae Delfryn Lodge wedi derbyn tri chlaf newydd yn y misoedd diwethaf, a chreodd hyn anawsterau dybryd i'r staff o ran rheolaeth. Nid oedd y derbyniadau hyn wedi bod yn addas, a chawsant effaith ar y cleifion yn Delfryn Lodge yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n hanfodol bod yr holl dderbyniadau i'r ysbyty'n addas, ac yn ystod ein hadborth dywedwyd wrthym na fyddai cleifion newydd yn cael eu derbyn heb ymgynghori'n gyntaf ag AGIC, er mwyn i'r ward gael cyfle i setlo ac i roi amser i'r sefydliad a'r rheolwyr ymdrin â'r materion pwysig a gafodd eu nodi yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, cadarnhawyd mewn adborth gan yr Unigolyn Cyfrifol y caiff proses ei rhoi ar waith gyda'r tîm amlddisgyblaethol i asesu darpar dderbyniadau.

***Gofynion***

***Rhaid mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd mewn perthynas â'r gofrestr cyffuriau a reolir. Yn benodol, y cyfansymiau anghywir a diffyg llofnodion gan dystion; roedd gan un cofnod ddyddiad heb fanylion eraill, ac roedd rhai llinellau gwag yn y gofrestr o gyffuriau a reolir ac ymddengys fod cofnodion wedi'u gwneud ar ôl y dyddiad.***

***Rhaid mynd i'r afael ag archwiliadau allanol sy'n tynnu sylw at gamau gweithredu yn hytrach na gadael iddynt barhau o un archwiliad i'r llall.***

***Rhaid mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol ynglŷn â meddyginiaeth i gleifion unigol.***

***Rhaid cynnal adolygiad o feddyginiaeth sydd wedi'i hagor er mwyn sicrhau bod dyddiadau'n eglur i ddynodi pryd yr agorwyd y cynnyrch ac erbyn pryd y dylai gael ei ddefnyddio.***

***Rhaid cwblhau'n llawn yr holl gofnodion sy'n perthyn i ofal cleifion, gan gynnwys cofnodion arsylwi a siartiau cydbwysedd hylif, a rhaid i staff nyrsio eu llofnodi i sicrhau bod y cofnodion yn gywir a bod gofal cleifion yn cael ei oruchwylio'n llawn.***

***Rhaid i bob derbyniad i Ysbyty Delfryn fod yn addas er mwyn sicrhau bod staff yn darparu gofal sy'n briodol ac yn gydnaws â Datganiad o Ddiben yr ysbyty, a bod unrhyw dderbyniad yn cael yr effaith leiaf ar y cleifion sydd eisoes yno.***

## **Bwyd a maeth**

Gwnaeth y mwyafrif o staff a chleifion y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am y bwyd a roddir iddynt yn yr ysbyty, gan ddweud bod dewis ac ansawdd y bwyd, a maint y dognau, yn dda. Gwelsom staff a chleifion yn bwyta ynghyd, a gwnaethom ganmol yr arfer hwn oherwydd ei werth therapiwtig fel rhan o brofiad bwyta'r cleifion.

Ar adeg ein hymweliad, gallai'r cleifion gael mynediad i'r ceginau ar gyfer diodydd poeth a byrbrydau bob awr, ac roedd diodydd oer ar gael bob amser. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â rhoi mynediad agored i'r ceginau yn y Lodge a'r House yn y dyfodol agos. Gallai cleifion gadw eu byrbrydau eu hunain mewn cwpwrdd neu oergell, ond dywedodd rhai cleifion wrthym fod eitemau wedi mynd ar goll.

Dywedodd cleifion a staff wrthym fod dewisiadau a phrydau llysieuol yn sâl ac nad oedd digon o amrywiaeth iddynt. Dywedwyd wrthym hefyd fod y gyllideb ar gyfer darparu pwdinau diabetig yn fach, ac o ganlyniad câi cacennau a phwdinau eu gweini unwaith yr wythnos.

Dywedodd y staff nos fod y bwyd a adawyd ar eu cyfer ar gyfer y sifft yn dila ac nad oedd digon ohono. Dywedodd y cleifion wrthym fod pryd mawr yn cael ei weini amser cinio ac yna byrbrydau amser te, ac y byddai'n well gan rai cleifion petai'r drefn go chwith i hynny.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu deg o ffeiliau staff a gweld bod pob ffeil wedi'i threfnu'n eglur ac wedi'i rhannu'n adrannau neilltuol gan ei gwneud hi’n hawdd i ddod o hyd i wybodaeth. Roedd tystiolaeth yn yr holl ffeiliau bod ymgeiswyr wedi'u recriwtio drwy gystadleuaeth agored a theg, ac roedd ffurflen gais, geirdaon, disgrifiad swydd, nodiadau cyfweliad, a chytundebau contract yn y ffeil.

Roeddem yn falch o nodi bod Ysbyty Delfryn yn cynnal archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl weithwyr, a bod system ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff sydd â chofrestriad proffesiynol wedi'i gofrestru'n gyfredol.

Roedd system ar waith i'r staff gael arfarniad blynyddol, ond roedd yr ystadegau a ddarparwyd yn dangos nad oedd rhai aelodau staff wedi cael arfarniad ers 2012. Mae'n hanfodol bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol, a bod y staff nad ydynt wedi cael un ers 2012 yn derbyn un yn fuan.

Dywedodd y mwyafrif o staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd, ac roedd yr ystadegau a ddarparwyd yn dangos bod staff wedi derbyn sesiwn oruchwylio rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015. Roedd rhai bylchau, yn benodol yn achos staff Delfryn Lodge, a rhaid rhoi blaenoriaeth i gynnal y sesiynau hyn.

Roedd rhaglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr ar waith ar gyfer y staff, ac fe'i cyflwynwyd drwy e-ddysgu a dulliau dysgu'r ystafell ddosbarth.  Roeddem yn falch o nodi bod yr hyfforddiant Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol wedi gwella ers ein hymweliad diwethaf ym mis Mai 2014, ond bod rhai meysydd hyfforddiant wedi'u hesgeuluso ac angen eu diweddaru ar frys.  Ymhlith y meysydd hynny oedd hyfforddiant codi a chario, y dynodwyd yn yr ystadegau bod y mwyafrif y staff angen diweddariad ynddo ar unwaith, cymorth cyntaf a dadebru, DEFIB (diffibrilio), a chynnal bywyd sylfaenol. Ar draws yr ysbyty, dim ond un aelod o staff oedd wedi derbyn hyfforddiant yn yr olaf yn 2014, ac nid oedd aelod o staff arall wedi diweddaru ei hyfforddiant yn y maes hwn ers 2009.  Rhaid cynnal dadansoddiad o'r ystadegau hyfforddiant ar unwaith er mwyn pennu faint o staff sydd angen diweddaru eu hyfforddiant gorfodol, ac i roi cynllun ar waith i sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant.  Mae angen hyfforddiant gorfodol ar staff i sicrhau eu diogelwch nhw a'r cleifion.

Wrth sgwrsio â staff, tynnwyd sylw at yr angen am hyfforddiant penodol ym maes anhwylderau personoliaeth ymhlith menywod.  Byddai hyfforddiant yn y maes hwn o fudd i weithwyr gofal a nyrsio er mwyn cyflwyno a datblygu ffyrdd gwell o weithio â chleifion sydd â'r diagnosis hwn.

Roedd angen gwella'r broses sefydlu staff, a dywedodd dau aelod o staff eu bod wedi derbyn ond hanner diwrnod o sefydlu ac yna diwrnod wedi'i neilltuo ar gyfer arsylwi.  Mae'r sefydliad wedi cadarnhau y bydd y broses sefydlu'n newid, gan roi proses sefydlu drwyadl i staff newydd a fydd yn cynnwys tridiau o hyfforddiant.

Gwnaethom adolygu deg o gwynion a nodi nad oedd y ffeiliau cwyn unigol yn cynnwys yr wybodaeth i gyd i ddangos pa gamau a wnaed o ganlyniad i unrhyw waith archwilio. Felly roedd hi'n anodd cadarnhau'r canlyniad am nad oedd hyn wedi'i gofnodi yn y llythyrau terfynol at y bobl a gwynodd.

Nid oedd y Datganiad o Ddiben, dyddiedig 2 Chwefror 2015, yn gywir am nad oedd yn cynnwys uned Rhyd Alyn, ac roedd y nifer o welyau a restrwyd ar gyfer Delfryn Lodge yn anghywir.

Dywedodd amryw o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod anghysonderau yn y modd roedd staff yn gweithredu polisïau, a bod hynny wedi peri anfodlonrwydd. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd fel rhai anghyson oedd y defnydd o ffonau symudol, ysmygu, a gwibdeithiau grŵp. Daeth i'r amlwg bod rhai aelodau staff yn fwy llym na'r lleill wrth weithredu polisïau, ac roedd cleifion wedi'u drysu gan yr anghysonderau. Mae'n ofynnol i'r ysbyty gywain barn y cleifion ar y mater hwn a chyfathrebu'n glir i gleifion yr hyn a ellir ac na ellir ei wneud.

***Gofynion***

***Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael arfarniad blynyddol, gan roi pwyslais penodol ar y staff nad ydynt wedi cael arfarniad ers 2012.***

***Mae'n rhaid i bob aelod o staff dderbyn goruchwyliaeth reolaidd, gan roi sylw arbennig i'r aelodau o staff yn Delfryn Lodge nad ydynt wedi cael sesiwn oruchwylio ers cryn amser.***

***Rhaid cynnal dadansoddiad o'r ystadegau hyfforddiant ar unwaith er mwyn pennu faint o staff sydd angen diweddaru eu hyfforddiant gorfodol, ac i roi cynllun ar waith i sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant.***

- ***Rhaid rhoi system ymsefydlu gadarn ar waith ar gyfer yr holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i weithio ar y wardiau.***
- ***Dylai pob cwyn gynnwys gwybodaeth gyflawn i dystiolaethu pa gamau, gweithrediadau a chyflawniadau a wnaed i gyrraedd at y canlyniad terfynol.***
- ***Rhaid diweddaru'r Datganiad o Ddiben er mwyn iddo adlewyrchu darpariaethau'r gwasanaeth yn gywir, gan gynnwys uned Rhyd Alyn a'r nifer o welyau sydd ym mhob ward.***
- ***Mae angen strategaethau ar gyfer gwella'r modd o gyfathrebu polisïau'r ysbyty, er mwyn cael gwared ar yr anghysonderau sy'n cael eu profi gan gleifion.***

### *Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl*

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol chwech o'r cleifion oedd yn derbyn gofal ar ddwy o wardiau'r ysbyty ar adeg ein hymweliad. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Arfer da o ran y ffurflen ar gyfer ymgynghorai statudol
- Clinig wythnosol ar gyfer staff a chleifion

Nodwyd y materion canlynol, ac mae angen eu cynnwys yn eich cynllun gweithredu:

- Rheoli dyddiaduron ar gyfer nifer o newidiadau
- Cymorth ar gyfer clinigwyr cyfrifol sydd newydd eu penodi
- Nid oedd gan hanner y ffeiliau a adolygwyd gennym gofnod yn y nodiadau'n dweud bod y claf wedi gwneud cais am wrandawiad gan reolwr yr ysbyty.

## *Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl*

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaethau yn Delfryn Lodge a nodi'r canlynol:

- Nid oedd tystiolaeth bod Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ar waith ar gyfer un claf
- Roedd cyfnodau hir rhwng adolygiadau ar gyfer gofal a ragnodwyd, ac roedd anghenion cyfnewidiol/ymyriadau na chofnodwyd mewn cynlluniau gofal
- Roedd diffyg arsylwadau corfforol, sylfaen wedi'u cofnodi yn y cynlluniau gofal a adolygwyd
- Roedd diffyg asesiadau maeth yn y ffeiliau a adolygwyd gennym.

***Cam gofynnol***

***Mae angen adolygu a diweddaru cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod y Mesur ar waith ar gyfer yr holl gleifion o Gymru, bod asesiadau a chofnodion – gan gynnwys maeth ac arsylwadau corfforol sylfaen – ar gael, a bod anghenion cyfnewidiol neu ymyriadau ar gyfer cleifion yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau gofal.***

## 6. Y Camau Nesaf

Yn dilyn ein harolygiad a'r cyfarfod adborth, mynegwyd pryderon ynghylch canfyddiadau a allai beri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Anfonwyd llythyr at y sefydliad i gael sicrwydd o'r camau y mae'r sefydliad yn ymgymryd â nhw er mwyn lleihau'r risgiau hyn. Derbyniodd AGIC gynllun gweithredu, a byddwn yn ei fonitro.

Mae'n ofynnol i Ysbyty Delfryn gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Delfryn yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ym maes iechyd meddwl/anabledd dysgu.

**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Sefydliad: Gofal Iechyd Cambian**
**Ysbyty: Delfryn Lodge/House**
**Dyddiadau'r arolygiad: 13-15 Ebrill 2015**

| Argymhelliad | Rheoliad | Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Sylwadau | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. <u>Ffôn y cleifion</u>**<br>**Mae angen trwsio'r ffôn talu yn Delfryn Lodge at ddefnydd y cleifion** | 26 (2) (b) | 1. Archebu ffôn talu newydd ar gyfer cleifion | LB | 29.05.15 | 1. Mae ffôn talu newydd bellach wedi ei osod | |
| **2. <u>Yr ardd</u>**<br>**Mae angen ffens uwch o amgylch yr ardd er mwyn atal cleifion rhag ffoi** | 26 (2) (a) | 2. Pennu staff i wylio'r ardd yn amlach er mwyn rhoi mynediad mwy rheolaidd i gleifion | LB/ST | Cwblhawyd | 2. Nid yw mynediad at yr ardd yn cael ei rwystro gan uchder y ffens ond gan amrywiaeth o risgiau. Mae'n cael ei hagor am gyfnodau cyfyngedig bob dydd er mwyn rheoli amrywiaeth o risgiau'n effeithiol, gan gynnwys ffoi a risgiau clymu. Byddwn yn sicrhau bod staff ar gael yn rheolaidd i arsylwi ar gleifion er mwyn rhoi mwy o amser iddynt yn yr ardd | |
| **3<u>Dodrefn</u>**<br>**Mae angen newid y dodrefn yn y lolfa i fyny'r grisiau yn y Lodge oherwydd difrod** | 26(2) (b) | 3. Archebu dodrefn newydd | ST/LB | 29.05.15 | 3. Mae dodrefn newydd wedi cael eu harchebu ac fe fyddant yn cael eu gosod erbyn diwedd mis Mai | |
| **3. <u>Larymau</u>**<br>**Mae'n hollbwysig bod pob galwad larwm yn cael ei ystyried o ddifri ac yn cael ei ateb er mwyn sicrhau** | 15(1) (b) & 19(1) (a) (b) | 4. Atgoffa pob aelod o staff am bwysigrwydd y polisi ymateb ac argyfwng | LB | 29.05.15 | 4. HOC i sicrhau bod pob aelod o staff yn ail-ymgyfarwyddo â'r gweithdrefnau perthnasol. Mae protocol ymateb mewn | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **diogelwch y cleifion a staff** | | | | | argyfwng bellach wedi cael ei ddrafftio, a gofynnwyd i staff ymgyfarwyddo ag ef a'i lofnodi | |
| | | 4b. Rheolwr yr ysbyty i ymchwilio i system teclyn galw newydd a fydd o bosibl yn cymryd lle'r system larwm bresennol ar draws y safle | ST | 29.05.15 | 4b. Cytunwyd y byddai'r system yn briodol ac mae teclynnau galw bellach wedi cael eu harchebu | |
| **5. <u>Staffio</u>**<br>**Mae lefelau staffio'n gofyn am gamau gweithredu brys.Mae'n rhaid i'r ysbyty sicrhau bod digon o staff ar bob ward er mwyn darparu gofal priodol ar gyfer y grŵp cleifion** | 20 (1) (a) (b) | 5. Recriwtio hyd at lefelau'r sefydliad ar gyfer nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth | ST/KW | 29.05.15 | 5. Y ffactor swyddi gwag presennol yn y Lodge yw dau nyrs iechyd meddwl cofrestredig a dim gweithwyr cymorth. Rydym yn parhau i recriwtio ond mae recriwtio diweddar wedi bod yn llwyddiannus, a thair o'r swyddi gwag wedi'u llenwi. Bydd y staff newydd yn dechrau ddiwedd mis Mai Bydd unrhyw ddiffygion staff nad ydynt yn gallu cael eu rheoli gan staff sefydledig/staff banc yn cael eu cyflenwi gan staff asiantaeth. Mae salwch ac absenoldeb hefyd yn cael eu rheoli'n effeithiol | |

**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Sefydliad: Gofal Iechyd Cambian**
**Ysbyty: Delfryn Lodge/House**
**Dyddiadau'r arolygiad: 13-15 Ebrill 2015**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 5b. Mae'n rhaid darparu digon o staff er mwyn hyrwyddo iechyd a diogelwch cleifion a staff | NR / ST / LB/MS | Ar unwaith ac yn barhaus | 5b. Bydd y rota ddyletswydd yn cael ei harchwilio gan y rheolwr sicrhau ansawdd corfforaethol. Caiff AGIC ei hysbysu am ganlyniadau'r archwiliad wythnosol hwn owythnos i wythnos er mwyn dangos tystiolaeth o hyn | |
| **6. <u>Penodi Clinigydd Cyfrifol</u>** **Mae angen adolygu'r modd o gyflenwi swydd y pclinigydd cyfrifol er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n darparu gofal cyson i gleifion** | 15(1) (a) (b) | 6. Bydd clinigydd cyfrifol parhaol yn cael ei benodi yn lle'r clinigydd cyfrifol locwm | LBu | 30.04.15 | 6. Penodwyd clinigydd cyfrifol. Dechreuodd yn y swydd ar 1 Mai 2015 Derbyniodd gyfnod trosglwyddo o wythnos a bydd y cyfarwyddwr meddygol cynorthwyol yn parhau i ymweld bob dydd Iau am bedair wythnos er mwyn ei helpu i ymsefydlu | |
| **7. <u>Clinig</u>** **Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ynglŷn â'r gofrestr cyffuriau a reolir.Yn benodol, yr archwiliadau anghywir o'r hyn sydd yn weddill a diffyg llofnodion gan dystion. Roedd un cofnod â dyddiad ond heb fanylion eraill, ac roedd rhai colofnau yn y gofrestr cyffuriau a reolir wedi'u gadael yn wag ac roedd rhai cofnodion ôl-syllol wedi'u gwneud** | 15 (5) (a) (b) | 7. Mae rhaid i bob nyrs ail-wneud y cymwyseddau clinigol | LB | 29.05.15 | 7. Wedi'i ddechrau ac yn parhau. Un yn unig heb ei wneud | |
| | | 7b. Cynnal archwiliad clinig Speeds | LB/ST | 29.04.15 | 7b. Mae pob mater a nodwyd bellach wedi derbyn sylw. Bydd archwiliad pellach yn dechrau ar 2 Mehefin | |
| | | 7c. Archebu llyfr newydd ar gyfer cyffuriau a reolir | LB | 15.05.15 | 7c. Mae'r llyfr newydd ar gyfer cyffuriau a reolir bellach ar waith | |

**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Sefydliad: Gofal Iechyd Cambian**
**Ysbyty: Delfryn Lodge/House**
**Dyddiadau'r arolygiad: 13-15 Ebrill 2015**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.2 Mae'n rhaid cynnal adolygiad o feddyginiaeth sydd wedi'i hagor er mwyn sicrhau bod dyddiadau'n glir, er mwyn nodi pryd yr agorwyd y cynnyrch a phryd y bydd bywyd y cynnyrch yn dod i ben.** | | 7d. LB i drefnu mewnbwn priodol gan Fferyllfa Speed i ategu'r gwelliannau sydd eu hangen | LB/ST | 24.04.15 | 7d. Daeth AD o Fferyllfa Speeds ar 24 Ebrill 2015. Dechreuodd technegydd fferyllol ar 11 Mai i roi cymorth un diwrnod yr wythnos er mwyn cyfrannu at y gwelliannau<br>Mae AD hefyd wedi mynychu cyfarfod nyrsys iechyd meddwl cofrestredig er mwyn trafod canfyddiadau'r arolygiadau siart, a'r cynnydd hyd yn hyn ac atebolrwydd.<br>Bydd y rheolwr sicrhau ansawdd a chydymffurfiad rhanbarthol yn cynnal archwiliadau rheolaidd, a bydd yr archwiliad nesaf yn cael ei gydlynu ar y cyd â thechnegydd Speeds ar 29 Mai | |
| | 15 (5) (a) | 7.2 HOC/nyrsys iechyd meddwl cofrestredig i adolygu'r holl feddyginiaeth | LB/ nyrsys iechyd meddwl cofrestredig | Ar unwaith ac yn barhaus | 7.2 Cwblhawyd | |
| **8. <u>Archwiliadau</u><br>Mae'n rhaid mynd i'r afael â phob archwiliad mewnol ac allanol sy'n nodi bod angen camau gweithredu - yn hytrach na gadael iddynt barhau** | 19(1) (a) (b) | 8. Y rheolwr sicrhau ansawdd a chydymffurfiad i gynnal archwiliad wythnosol o'r clinig | MS | Ar unwaith ac yn barhaus | 8. Cwblhawyd | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **heb dderbyn sylw dro ar ôl tro** | | 8b. Technegydd Speeds i drefnu a chwblhau archwiliad rheolaidd | AD | Ar unwaith ac yn barhaus | 8b. Cytunwyd ar broses archwilio rheolaidd sydd bellach wedi'i rhoi ar waith. Dechreuodd technegydd fferyllol ar 11 Mai i gynorthwyo gyda'r gwelliannau.<br>Bydd y rheolwr sicrhau ansawdd a chydymffurfiad rhanbarthol hefyd yn cynnal archwiliadau rheolaid | |
| **9. <u>Cofnodion cleifion</u>**<br>**Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol ynglŷn â materion meddyginiaeth cleifion unigol**.<br><br>**Mae'n rhaid adolygu a diweddaru cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod yr holl asesiadau a chofnodion - gan gynnwys maeth ac arsylwadau corfforol sylfaenol - ar gyfer cleifion Cymru ar gael, a bod unrhyw anghenion cyfnewidiol ac/neu ymyriadau ar gyfer cleifion yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau gofal**. | 15 (5) (a) (b) | 9. Y clinigydd cyfrifol i adolygu'r holl feddyginiaeth gyfredol<br><br>Cyflwyno ffeiliau iechyd corfforol a'u diweddaru'n rheolaidd. Cyflwyno cynlluniau gofal tymor byr ar gyfer cleifion | Clinigydd Cyfrifol<br><br>Nyrsys iechyd meddwl cofrestredig/clinigydd cyfrifol<br><br>LB/nyrsys iechyd meddwl cofrestredig | 29.05.15<br><br>30.04.15 | 9. Adolygiad Cyflawn bellach wedi'i gwblhau<br><br>Mae ffeiliau gofal iechyd corfforol bellach ar waith ac fe gânt eu harchwilio'n rheolaidd. Mae prosesau bellach ar waith lle y defnyddir cynlluniau gofal iechyd tymor byr yn ôl yr angen Bydd y rheolwr sicrhau ansawdd a chydymffurfiad rhanbarthol hefyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9.3 Mae'n rhaid i bob cyfnod sy'n ymwneud â gofal cleifion - gan gynnwys cofnodion arsylwi a siartiau cydbwysedd hylif - gael eu cwblhau'n llawn, a'u llofnodi gan staff nyrsio er mwyn sicrhau bod cofnodion yn gywir a bod gofal cleifion yn gynhwysfawr** | 15 (9) (a) a 23 (1) (a) (i) | 9.3 Parhau i ddod â chofnodion arsylwi dyddiol i bob cyfarfod boreol, lle y cânt eu llofnodi gan bennaeth gofal a/neu gyfarwyddwr yr ysbyty | LB/ST | Ar unwaith ac yn barhaus | 9.3 Mae'r broses ar waith. Mae cofnodion arsylwi dyddiol bellach yn cael adolygiad sicrhau ansawdd gan Gyfarwyddwr yr ysbyty a'r Pennaeth Gofal<br>Cynhelir archwiliad wythnosol hefyd gan y rheolwr sicrhau ansawdd a chydymffurfiad rhanbarthol | |
| **10. <u>PAA/Derbyniadau</u>**<br>**Dylai pob derbyniad i Ysbyty Delfryn fod yn addas er mwyn sicrhau bod staff yn darparu gofal sy'n briodol ac yn unol â Datganiad o Ddiben yr ysbyty – a bod unrhyw dderbyniadau'n cael yr effaith leiaf ar gleifion cyfredol** | 9 (1) (c) a 15 (1) (a) (b) (c) | 10. Cytuno ar broses ar gyfer tîm amlddisgyblaethol Delfryn er mwyn asesu pob atgyfeiriad i sicrhau bod pob derbyniad yn briodol | NR/ JM / ST | 24.04.15 | 10. Cytunwyd ar broses asesu newydd sydd bellach ar waith. Lle bynnag bo hynny'n bosibl, cynhelir cyd-asesiad gan asesydd nyrsio a chynrychiolwyr priodol o dîm amlddisgyblaethol Delfryn.<br>Lle na bo hynny'n bosibl, bydd asesiad cychwynnol yr asesydd nyrsio yn cael ei ddilyn gan asesiad gan dîm amlddisgyblaethol Delfryn cyn bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud | |

**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Sefydliad: Gofal Iechyd Cambian**
**Ysbyty: Delfryn Lodge/House**
**Dyddiadau'r arolygiad: 13-15 Ebrill 2015**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **11. <u>Datganiad o Ddiben</u>**<br>**Mae'n rhaid diweddaru'r Datganiad o Ddiben er mwyn iddo adlewyrchu'n gywir darpariaethau'r gwasanaeth, gan gynnwys uned Rhyd Alyn a'r nifer o welyau sydd ym mhob ward** | 8 (a) (b) | 11. Adolygu a diweddaru'r Datganiad o Ddiben, gan sicrhau bod y niferoedd staffio'n gywir, a'i anfon at AGIC er mwyn iddynt ei ystyried/cymeradwyo. Dinistrio unrhyw hen gopïau | ST/MS | 15.05.15 | 11. Cwblhawyd y trydydd drafft o'r Datganiad o Ddiben ac fe'i cyflwynir i AGIC er mwyn iddynt ei ystyried gyda thrydydd diweddariad y cynllun gweithredu | |
| **12. <u>Polisïau</u>**<br>**Mae angen strategaethau er mwyn gwella'r modd o hysbysu am bolisïau'r ysbyty, er mwyn cael gwared ar yr anghysondebau yn y gofal mae'r cleifion yn ei dderbyn** | 19 (1) (b) | 12. Ailddosbarthu cyfeirlyfr y cleifion – sy'n ymdrin â materion perthnasol – i staff a chleifion | LB/ST | 15.05.15 | 12. Cwblhawyd. Ail-ddosbarthwyd cyfeirlyfr y cleifion i'r holl staff a chleifion gan y Pennaeth Gofal, a chofnodwyd hyn hefyd | |
| | | 12b. Trafod y mater yn y cyfarfod llywodraethu clinigol nesaf | LB/ST | 21.05.15 | 12b. Bydd cynrychiolydd cleifion o Delfryn House ac o Delfryn Lodge yn mynychu'r cyfarfod llywodraethu clinigol nesaf ar 25 Mai | |
| | | 12c. Dosbarthu arolygon boddhad staff/cleifion/gofalwyr yn Delfryn Lodge | LB/ST/HH/AS | 29.05.15 | 12c. Mae arolygon boddhad wedi'u hanfon at bawb.<br>Caiff y canlyniadau eu cywain erbyn diwedd mis Mai | |
| **13.1 – <u>Sesiynau Goruchwylio/Arfarnu</u>**<br>**Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael arfarniad blynyddol, gan roi pwyslais arbennig ar y staff nad ydynt wedi cael arfarniad ers 2012**<br><br>**13.2 – Mae'n rhaid i bob aelod o** | 20 (2) (a) | 13.1 Rheolwr yr ysbyty a Phennaeth Gofal i gynnal arfarniadau gyda phob aelod o staff | ST/LB | Ar unwaith ac yn barhaus | Cwblhawyd. Mae arfarniadau pob aelod o staff bellach yn gyfredol, gan gynnwys yr aelod penodol o staff nad oedd wedi cael un ers 2012. Bydd y rheolwr sicrhau ansawdd a chydymffurfiad rhanbarthol hefyd yn cynnal archwiliadau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **staff dderbyn goruchwyliaeth reolaidd, gan roi sylw arbennig i'r aelodau o staff yn Delfryn Lodge nad ydynt wedi cael sesiwn oruchwylio ers cryn amser** | | | | | rheolaidd | |
| | | 13.2 Rheolwr yr ysbyty i oruchwylio penaethiaid adran | ST | Ar unwaith ac yn barhaus | Cwblhawyd | |
| | | 13.2b Rheolwr yr ysbyty i gynnal pob sesiwn oruchwylio ar sail un i un o fewn y fframwaith amser presennol | ST | 08.05.15 | 13.2b Cwblhawyd | |
| | | 13.2c LB i gynnal sesiynau goruchwylio gyda staff cymorth | LB | 15.05.15 | 13.2c 99% wedi'i gwblhau ar hyn o bryd | |
| | | 13.2d Y rheolwr sicrhau ansawdd a chydymffurfiad rhanbarthol i archwilio sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd | MS | Ar unwaith ac yn barhaus | 13.2d Rhoddwyd y broses ar waith | |
| **14. <u>Ymsefydlu/Hyfforddiant</u>** **Mae'n rhaid rhoi system ymsefydlu gadarn ar waith ar gyfer pob aelod o staff er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i weithio ar y wardiau** | 20 (1) (a) a 20 (2) (d) | 14. Pob aelod o staff sydd wedi'i benodi'n ddiweddar i dderbyn cyfnod trwyadl o ymsefydlu, gan gynnwys tridiau o hyfforddiant ar bolisïau, pecyn ymsefydlu, | ST/LB | 29.05.15 | 14. Mae pob aelod o staff sydd wedi'i benodi'n ddiweddar wedi derbyn sesiwn ymsefydlu gadarn ac wedi derbyn yr holl hyfforddiant priodol | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cymwyseddau arsylwi, cyflawni a symud ymaith | | | | |
| | | 14.1b Pob aelod o staff Delfryn Lodge a staff dethol o Delfryn House i dderbyn hyfforddiant ar anhwylder personoliaeth | JK | 29.05.15 | 14.1b Mae pob sesiwn hyfforddi bellach wedi dechrau Mae 27 aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant. Bydd yr holl staff sydd ar ôl wedi derbyn yr hyfforddiant erbyn y dyddiad cau<br><br>Bydd sesiynau hyfforddiant pellach yn cychwyn yn nechrau mis Mehefin ar gyfer staff nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiynau blaenorol | |
| **14.2 - Mae angen dadansoddi'r ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol er mwyn nodi pob aelod o staff y mae angen diweddaru ei hyfforddiant gorfodol, ac mae'n rhaid rhoi rhaglen ar waith i sicrhau bod hyfforddiant pob aelod o staff yn gyfredol** | | 14.2 Adolygu'r matrics hyfforddiant a nodi staff sydd angen diweddaru eu hyfforddiant | LB/HH | 29.05.15 | 14.2 Cwblhawyd | |
| **Deddf Iechyd Meddwl** | | | | | | |
| • Rheoli dyddiaduron ar gyfer nifer o newidiadau | Amherthnasol | Cynghorydd iechyd meddwl i greu dyddiadur newydd ar gyfer y clinigydd cyfrifol | AS/JM | Ddim yn berthnasol | Cwblhawyd. Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol hefyd yn ymweld | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | newydd, yn ogystal ag anfon gwahoddiadau a diweddaru calendrau Outlook | | | â Delfryn bob wythnos er mwyn rhoi cymorth | |
| • Cymorth ar gyfer clinigwyr cyfrifol sydd newydd eu penodi | Ddim yn berthnasol | Yr holl waith papur a manylion mewngofnodi i gael eu darparu, a chynghorydd iechyd meddwl i helpu gyda theipio adroddiadau | AS/JM | Ar unwaith ac yn barhaus | Cwblhawyd | |
| • Nid oedd gan hanner y ffeiliau a adolygwyd gennym gofnod yn dweud bod y claf wedi gwneud cais am wrandawiad gan reolwr yr ysbyty | Ddim yn berthnasol | Rhoddwyd proses ar waith sy'n dangos os nad yw claf wedi cael gwrandawiad gan y rheolwr neu dribiwnlys | AS/JM | Ar unwaith ac yn barhaus | Cwblhawyd | |

**ALLWEDD-**

NR – Nick Ruffley – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rhanbarthol
ST – Shani Tanti – Cyfarwyddwr yr Ysbyty
LB – Laura Blythe - Dirprwy Gyfarwyddwr yr Ysbyty
JK – Julie Knight – Seicolegydd
KW – Kristy Watters – Adnoddau Dynol
LBu – Dr Leslie Burton – Cyfarwyddwr Meddygol
JMc – Jo McAuliffe – Rheolwr y Tîm Asesu
MS – Michelle Stokes – Rheolwr Rhanbarthol Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiad
AD – Alison Duke – Fferyllfa Speeds yr ysbyty
AS – Abi Scott – Cynghorydd Iechyd Meddwl
JM – Jordan Massey – Cynghorydd Iechyd Meddwl cynorthwyol
HH – Gweinyddwr

**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Sefydliad: Gofal Iechyd Cambian**
**Ysbyty: Delfryn Lodge/House**
**Dyddiadau'r arolygiad: 13-15 Ebrill 2015**

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | Cwblhawyd |
| (oren) | Ar waith |
| (coch) | Heb ei gyflawni |